# Cysylltiadau Clybiau Ysgol

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

## Clwb Osgoi'r Bêl Dreigiau Cwm Rhondda

**Nod:**

Mae'r clwb wedi'i sefydlu ers 5 mlynedd gydag aelodau sy'n oedolion yn unig. Mae’r clwb eisiau sefydlu adran iau er mwyn i blant chwarae osgoi'r bêl!

**Beth/Sut:**

- Y Clwb wedi cwblhau Achrediad Clwb Chwaraeon RhCT.
- Gwnaethon ni gwrdd er mwyn trafod y cymorth sydd ei angen gan lunio cynllun ar y cyd.
- Gwnaethon ni gynorthwyo'r clwb i gyrchu cyllid er mwyn sefydlu'r adran iau.
- Gwnaethon ni gynorthwyo'r clwb i sefydlu cysylltiadau gydag ysgolion lleol.
- Gwnaethon ni gynorthwyo'r clwb â deunyddiau marchnata a hyrwyddo ar-lein.
- Darparodd y clwb sesiynau blasu mewn ysgolion a thwrnamaint osgoi'r bêl.

**Effaith:**

- Derbyniodd y clwb £770 gan Gronfa Cymru Actif ar gyfer offer newydd, addysg i hyfforddwyr a llogi cyfleusterau.
- Sefydlwyd cysylltiadau rhwng y clwb a 18 ysgol.
- 47 o aelodau iau newydd.
- Sefydlwyd adran iau yn y clwb ar gyfer plant rhwng 6 a 12 oed.

“Dros y misoedd cyntaf, roedd sawl unigolyn yn mynychu'n rheolaidd, ond aeth pethau o nerth i nerth wedi i ni gydweithio â Chwaraeon RhCT, wnaeth ein helpu ni i gydlynu sesiynau blasu mewn ysgolion cynradd lleol. Roedden nhw'n boblogaidd iawn ac mae gyda ni bellach dros 20 o aelodau'n mynychu'n rheolaidd bob dydd Llun”

SCOTT ESNOUF - CLWB OSGOI'R BÊL DREIGIAU CWM RHONDDA